# Codi arian a chymorth codi arian

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae'r dolenni canlynol yn eich tywys i wefannau allanol sy'n gywir ac yn gyfredol yn ein barn ni, ond nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am dudalennau a gaiff eu cynnal gan ddarparwyr allanol.

## Am ddim ar ôl i chi gofrestru

**Cyllido Cymru** is yw'r llwyfan newydd ar gyfer chwilio am gyllid a grëwyd gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Gallwch ddod o hyd i gyllid i'ch elusen, grŵp cymunedol neu fenter gymdeithasol gan ddefnyddio ein peiriant chwilio ar-lein am ddim. Gallwch chwilio drwy gannoedd o gyfleoedd am grantiau a chyllid benthyciad o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. O grantiau bach i brosiectau cyfalaf mawr, gallwn eich helpu i ddod o hyd i'r cyllid sydd ei angen arnoch.

**Charity Excellence** yn cynnig cronfa ddata ar-lein am ddim sy'n cynnwys rhestrau gwirio, adnoddau a chyfleoedd cyllido. Er mwyn defnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn, bydd angen i chi gofrestru a bydd angen i chi gwblhau o leiaf un holiadur i'ch galluogi i ddefnyddio'r adnodd 'Funding Finder'. Byddai'n werth cymryd yr amser i gwblhau'r holiaduron gan y byddant yn eich tywys drwy wiriad iechyd o'ch sefydliad i'ch helpu i nodi meysydd y byddai o fudd i chi eu hatgyfnerthu. Ceir adnoddau pellach hefyd i'ch cefnogi a'ch cyfeirio at gymorth arall os bydd ei angen.

Mae **Get Grants** yn rhoi cymorth ymarferol ar ffurf hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor y gall unigolion a sefydliadau sy'n codi arian â phob lefel o brofiad fanteisio arno a'i roi ar waith. Mae'n rhannu arbenigedd a phrofiad o'r byd cyllid grant, gan eich rhoi ar y trywydd cywir a sicrhau eich bod yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud y defnydd gorau o'ch amser a'ch egni yn codi arian.

## Gwasanaethau â ffioedd tanysgrifio

Mae **Grant Finder** yn cynnig cronfa ddata drwy danysgrifiad yn unig o gyfleoedd cyllido lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n darparu cronfa ddata gyfredol a gaiff ei chefnogi gan dîm ymroddedig o ymchwilwyr arbenigol sy'n monitro, yn casglu, yn dilysu ac yn cyflwyno adroddiadau dyddiol ar filoedd o ffynonellau cyllido gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol, cymdeithasau, cynghorau ymchwil, llywodraeth genedlaethol, yr UE a noddwyr corfforaethol.

Mae cannoedd o sefydliadau yn ymddiried yn **Grants Online** i'w hysbysu am y cyfleoedd cyllido diweddaraf. Drwy ddarparu gwybodaeth gyfredol am gyllid grant, hysbysiadau a chylchlythyrau, mae'n helpu sefydliadau i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial cyllido.

**Y Sefydliad Codi Arian Siartredig** is the professional membership body for UK fundraising. It champions its members' excellence in fundraising, by supporting fundraisers through professional development and education.